Pembrokeshire VOICE LLAIS Sir Benfro

Croeso i Rifyn 19 o Lais Sir Benfro!

Diolch yn fawr i bawb a ddychwelodd ein holiadur diwethaf (79%). Heb eich sylwadau a'ch cyfraniad chi, ni allwn wella ein gwasanaethau na sicrhau eu bod yn ateb eich anghenion a'ch disgwyliadau chi. Felly, peidiwch ag anghofio llenwi arolwg 20 a'i anfon yn ôl atom cyn gynted ag y bo modd.

Y Wobr Fawr

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod enillydd gwobr ariannol Panel Dinasyddion Sir Benfro, Mr Fenwick, yn dod o ardal Llanreath - llongyfarchiadau ar ran y partneriaid!

Os ydych chi am gael cyfle i **ennill £50,** y cyfan sy'n rhaid i chi wneud yw llenwi arolwg 20 a'i anfon yn ôl atom ni cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae mor syml â hynny!

Ffurf y cylchlythyr:

Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r angen am arbedion effeithlonrwydd gan bob corff sector cyhoeddus, fe sylwch ein bod wedi newid ffurf ein cylchlythyrau ac rydym hefyd yn lleihau'r nifer o gopïau rydym yn eu printio.

Gyda hynny mewn golwg, os hoffech dderbyn eich arolwg a'ch cylchlythyr ar-lein, cysylltwch â'r Rheolwr Prosiect ar y manylion cyswllt isod.

Zoë Thomas
Rheolwr Prosiect, Paneli Dinasyddion Sir Benfro
Datblygu Corfforaethol
Heddlu Dyfed-Powys, Llangynnwr, Sir Gaerfyrddin, SA31 2PF

Ffôn: (01267) 226639
Ffacs: (01267) 233634
E-bost: zoe.thomas@dyfed-powys.pnn.police.uk

Cyngor Sir Penfro - Pembrokeshire County Council

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Hywel Dda Health Board

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys Police Authority

Heddlu • Police DYFED-POWYS

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras, Braille neu dâp sain, ffoniwch 01267 226639.

Canlyniadau - Arolwg 19

Cyngor Sir Penfro

Gorfodi Parcio Sifil

Roedd 80% ohonoch yn ymwybodol bod Cyngor Sir Penfro yn cymryd cyfrifoldeb dros reoli a gorfodi parcio ar ac oddi ar y stryd. Nid oedd 20% (130 ohonoch) yn gwybod hyn.

Ers cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil, ydych chi wedi gweld gwahaniaeth o ran rheoli traffig a pharcio yn eich cymuned leol?



Dywedodd 53% ohonoch nad oeddech chi wedi sylwi ar unrhyw wahaniaeth o ran rheoli traffig a pharcio yn eich cymuned leol ers cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil, tra bod 47% (304 ohonoch) wedi gweld gwahaniaeth.

O'r rhai ohonoch a ddywedodd eich bod wedi gweld gwahaniaeth, roedd tua hanner ohonoch yn teimlo bod yr effaith yn gadarnhaol, a'r hanner arall yn teimlo bod yr effaith yn negyddol.

O'r rhai a gredai bod yr effaith yn gadarnhaol, roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod Gorfodi Parcio Sifil wedi gwella llif traffig mewn trefi gan fod pobl nawr yn ystyried lle y maent yn parcio ac yn gwneud hynny o fewn y rheoliadau, gan arwain at lai o barcio sy'n achosi rhwystr a pharcio anghyfreithlon.

O'r rhai ohonoch a deimlai bod yr effaith yn negyddol, cyfeiria'r nifer mwyaf ohonoch at yr effaith ar fusnesau lleol gan nad oedd modd i siopwyr alw mewn yn gyflym, neu roedd ganddynt ddiffyg awydd i siopa mewn ardaloedd a effeithir gan y rheoliadau newydd. Roeddech chi'n teimlo bod hyn yn niweidiol i siopau a busnesau bach, ac y byddai'n parhau felly, gan wthio pobl tuag at archfarchnadoedd mawr ble y mae parcio am ddim.

Oeddech chi'n ymwybodol o'r adran Gwasanaethau Parcio newydd ar wefan y Cyngor?
Roedd 85% ohonoch yn anymwybodol o'r ffaith bod adran Gwasanaethau Parcio newydd ar wefan y Cyngor. Roedd 15% (94 ohonoch) yn ymwybodol ohoni. Os oes gennych ymholiad, neu os hoffech weld yr adran hon, ewch i www.pembrokeshire.gov.uk/parking a chlicio ar 'Cymraeg'.

Heolydd a Thrafnidiaeth

Ar raddfa o 1 - 5, pa mor bwysig ydych chi'n credu yw'r canlynol o ran ffyrdd a thrafnidiaeth yn gyffredinol?

	1 - pwysig iawn	2	3	4	5 – ddim yn bwysig
Isadeiledd newydd (heolydd/pontydd)	**29%**	28%	28%	7%	8%
Cynnal a chadw	**72%**	23%	4%	1%	0%
Gwelliannau diogelwch ffyrdd	**47%**	35%	15%	3%	1%
Gwella trafnidiaeth gyhoeddus	**37%**	**38%**	19%	5%	1%
Adnoddau i gerddwyr a beicwyr	29%	**32%**	25%	10%	3%
Datblygu cynllun teithio i'r ysgol	**33%**	**34%**	25%	5%	3%
Cynlluniau teithio busnesau/sefydliadau	19%	**35%**	33%	10%	4%
Darpariaeth parcio	41%	**36%**	19%	4%	1%
Rhannu ceir	18%	27%	**32%**	14%	9%

O ran ariannu, rhowch y canlynol yn nhrefn blaenoriaeth (1=y brif flaenoriaeth a 9=y flaenoriaeth isaf

O ran ariannu, gosodwyd yr agweddau a roddwyd i chi yn y drefn blaenoriaeth ganlynol:

(1) Cynnal a chadw
(2) Gwelliannau diogelwch ffyrdd
(3) Gwella trafnidiaeth gyhoeddus
(4) Darpariaeth parcio
(5) Datblygu cynllun teithio i'r ysgol
(6) Isadeiledd newydd (heolydd/pontydd)
(7) Adnoddau i gerddwyr a beicwyr
(8) Cynllun teithio busnesau/sefydliadau
(9) Rhannu ceir

Cynnyrch Sir Benfro Direct

Gwasanaeth ar-lein yw Cynnyrch Sir Benfro Direct sy'n dod â chynnyrch lleol ffres yn syth i garreg eich drws.

Roedd 53% ohonoch yn ymwybodol o Gynnyrch Sir Benfro Direct, fodd bynnag, dim ond 11% a oedd eisoes wedi gosod archeb gyda nhw.

Dywedodd y rhan fwyaf ohonoch fod eu gwefan yn dda neu'n ardderchog o ran: yr ystod o gynnyrch sydd ar gael (81%), defnydd iaith (75%), pa mor hawdd ydyw i'w chyrchu (74%), ac edrychiad a theimlad (70%). Hefyd, dywedoch fod gosod archeb drwy'r wefan yn dda neu'n ardderchog o ran: chwilio am eitemau (75%), ychwanegu/dileu eitemau o'ch basged (66%), a thalu (66%).



O ran gwerth am arian, dywedodd 42% (22 ohonoch) ei fod yn dda, dywedodd 25% (13 ohonoch) ei fod yn weddol, a dywedodd 21% (11 ohonoch) ei fod yn ardderchog. Dywedodd 7 ohonoch ei fod yn wael neu'n wael iawn

Os nad ydych eisoes wedi gosod archeb gyda Chynnyrch Sir Benfro Direct, beth yw'r prif beth sy'n eich atal rhag gwneud hynny?

Y 3 prif reswm a nodwyd gennych oedd: 1) y gost 2) safon y cynnyrch – roedd yn well gennych weld y cynnyrch cyn prynu a 3) diffyg mynediad i gyfrifiadur a/neu y rhyngrwyd, neu doeddech chi ddim yn hoffi siopa *ar-lein*.

O ran y gost bresennol o £4.50 am gludiant i unrhyw le yn Sir Benfro a'r cyffiniau, roedd 59% ohonoch yn teimlo ei fod yn rhesymol, roedd 30% ohonoch yn teimlo ei fod yn ddrud, ac roedd 11% ohonoch yn teimlo ei fod yn dangos gwerth am arian.

Os hoffech wybod mwy am Gynnyrch Sir Benfro Direct, galwch heibio i'w gwefan - www.pembrokeshireproducedirect.co.uk

Diweddariad

Os ydych wedi gofyn am ein **e-Gylchgrawn Sir Benfro Heddiw** ac wedi rhoi'ch cyfeiriad e-bost i ni, dylech fod wedi derbyn rhifynnau mis Gorffennaf a mis Awst erbyn hyn.

Os nad ydych wedi eu derbyn neu os hoffech eu derbyn, gallwch eu gweld ar ein gwefan; www.pembrokeshire.gov.uk neu gallwch gysylltu â Philippa Dodd ar 01437 775852 neu drwy anfon e-bost at philippa.dodd@pembrokeshire.gov.uk.

Heddlu Dyfed-Powys

Canolfan Gyswllt

Gofynnir y cwestiynau hyn yn flynyddol er mwyn gweld a yw'r gwasanaeth wedi gwella a pha ddatblygiadau pellach rydych chi efallai'n teimlo y dylid eu gwneud. Yn y rhifyn hwn rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y canlyniadau a sut y maent yn cymharu â'r rheiny a gafwyd pan ofynnwyd y cwestiynau'n wreiddiol yn 2006.

A ydych wedi ffonio Heddlu Dyfed-Powys yn ystod y 12 mis diwethaf?

Roedd 74% ohonoch heb ffonio Heddlu Dyfed-Powys yn ystod y 12 mis diwethaf, tra bod 26% (neu 173 o ymatebwyr) wedi eu ffonio. Roedd y mwyafrif ohonoch wedi galw unwaith yn unig cyn cael ateb, ac *mae hyn wedi bod yn gyson ers 2006.*

Pan atebwyd eich galwad, pa mor gyflym y gwnaed hynny …?

Teimlai 65% ohonoch fod eich galwad wedi ei ateb o fewn yr amser disgwyliedig, 18% ei fod wedi ei ateb yn gynt na'r disgwyl, 12% yn arafach na'r disgwyl ac roedd 4% ddim yn cofio. *Unwaith eto, mae'r canlyniadau wedi bod yn gyson ers 2006, gyda'r nifer fwyaf o aelodau yn awr yn teimlo bod eu galwad wedi cael ei ateb o fewn yr amser disgwyliedig.*

A gawsoch eich cyfarch yn ddwyieithog?

Dywedodd 60% ohonoch eich bod wedi cael eich cyfarch yn ddwyieithog, nid oedd 34% yn cofio a dywedodd 6% (10 aelod) na chawsoch gyfarchiad dwyieithog. *Ar sail eich adborth, mae'r nifer ohonoch sydd yn cael eich cyfarch yn ddwyieithog wedi mwy na dyblu ers 2006.*



Canfyddiadau'r Cyhoedd -

Mae canlyniadau'r cwestiynau 'Canfyddiadau'r Cyhoedd – Blaenoriaethau' a gynhwysir yn Arolwg 19 yn dal i gael eu dadansoddi. Ceir adroddiad arnynt yn rhifyn nesaf y cylchlythyr. Defnyddir eich safbwyntiau wrth osod blaenoriaethau i'r heddlu ar gyfer 2012/13.

Diweddariad - Arolwg 18 (Chwefror 2011)

Aflonyddu ar sail Anabledd

Ar y 3ydd o Ragfyr 2009, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, cyhoeddodd Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei fwriad i gynnal ymchwiliad ffurfiol i weithredoedd awdurdodau cyhoeddus er mwyn cael gwared ar aflonyddu ar sail anabledd a'r hyn sydd yn ei achosi.

Ym mis Rhagfyr 2010, dan arweiniad y Dirprwy Brif Gwnstabl Jackie Roberts (Arweinydd Cymru Gyfan dros Gydraddoldeb), cyfwelwyd â'r pedwar Heddlu yng Nghymru gan y Comisiwn fel rhan o'r ymchwiliad. Yn ystod gaeaf 2010/11, cynhaliwyd dros 72 cyfweliad gan y tîm Ymchwilio, yn ogystal â 54 gwrandawiad gydag awdurdodau cyhoeddus a gweithredwyr trafnidiaeth, a 12 cyfarfod gyda phobl anabl a'u sefydliadau ledled Cymru, Yr Alban a Lloegr.

Mae'r Comisiwn wedi lansio **O'r Golwg yng Ngolwg Pawb;** adroddiad terfynol yr Ymchwiliad ym Medi 2011, ac fe allwch ei weld ar www.equalityhumanrights.com, neu wneud cais amdano drwy ffonio **0845 604 8810** neu drwy ffôn testun ar **0845 604 8820**.

Er mwyn cynnal ein hymchwiliad ein hun ar aflonyddu ar sail anabledd, gofynnodd Heddlu Dyfed-Powys i aelodau o Baneli Dinasyddion Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ddweud wrthym am unrhyw brofiadau y maent wedi cael neu wedi clywed amdanynt. Diolch, byddwn yn dweud wrth ein Swyddogion Troseddau Casineb am yr adborth a roddwyd gennych.

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Eich gwasanaethau iechyd

Mae Gwasanaeth Iechyd Hywel Dda wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru darparu gofal o'r safon uchaf. Mae angen i ni weithio'n agosach gyda'r bobl rydym yn eu gwasanaethu, ac mae hyn yn cynnwys cyfathrebu parhaus ynghylch newidiadau a datblygiadau i'ch gwasanaethau iechyd. Hoffwn rannu gwybodaeth a chlywed eich barn chi am eich gwasanaethau iechyd.

Ydych chi'n teimlo bod gennych ddigon o wybodaeth am eich Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau iechyd y mae'n eu darparu? Dywedodd 36% ohonoch fod gennych *ddigon* neu *eithaf digon* o wybodaeth am y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau iechyd y mae'n eu darparu. Fodd bynnag, roedd 27% ohonoch yn teimlo nad oedd yn darparu llawer o wybodaeth o gwbl. Roedd 25% ohonoch yn teimlo eich bod yn derbyn ychydig o wybodaeth am bynciau penodol, a dywedodd 12% eich bod chi ddim yn gwybod.

Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn dysgu am wasanaethau iechyd a datblygiadau o ran iechyd yn eich ardal chi? Roedd gan 63% ohonoch *ddiddordeb mawr* neu *eithaf diddordeb* mewn clywed am ddatblygiadau a gwasanaethau iechyd yn eich ardal chi. Dywedodd 15% eich bod chi ddim yn gwybod, nid oedd gan 11% ohonoch ddiddordeb o gwbl, ac roedd gan 10% ohonoch ddiddordeb mewn clywed am bynciau penodol.

Pan ofynnwyd i chi beth hoffech chi gael gwybod mwy amdano, y 2 ateb pennaf oedd gwybodaeth gyffredinol neu'r holl wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, yn arbennig y rhai sy'n lleol i chi, a newidiadau a/neu ddatblygiadau arfaethedig i wasanaethau iechyd, yn arbennig mewn perthynas ag Ysbyty Llwyn Helyg a gwasanaethau lleol.

Sut hoffech chi gael gwybod mwy am y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu?
Y 5 prif le yr oeddech yn dymuno cael rhagor o wybodaeth oedd: (Noder mai cwestiwn amlddewis oedd hwn, ac felly ni fydd y canlyniadau'n gwneud cyfanswm o 100%)

(1) Meddygfeydd teulu	~	54%
(2) Cylchlythyr drwy'r post	~	37%
(3) Y wasg/radio lleol	~	36%
(4) Fferyllfeydd	~	33%
(5) Taflenni	~	28%

Ydych chi'n teimlo eich bod yn chwarae digon o ran yn eich Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu? Roedd 69% ohonoch yn teimlo nad oeddech yn chwarae rhan yn eich Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Roedd 13% yn teimlo eich bod yn chwarae ychydig o ran mewn meysydd penodol, ac roedd 11% ohonoch yn teimlo eich bod yn chware *tipyn o ran* neu *rhan fawr.*

A hoffech chwarae mwy o ran yn eich gwasanaethau iechyd lleol? Roedd 57% ohonoch eisiau'r cyfle i roi adborth o adref e.e. holiaduron, roedd 49% eisiau derbyn cylchlythyr rheolaidd drwy'r post, roedd 33% eisiau derbyn cylchlythyr rheolaidd drwy e-bost, ac roedd 29% eisiau'r cyfle i roi adborth drwy weithgareddau megis grwpiau ffocws a fforymau. (Noder mai cwestiwn amlddewis oedd hwn, ac felly ni fydd y canlyniadau'n gwneud cyfanswm o 100%)

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi lansio cynllun cynnwys ac ymgysylltu newydd o'r enw Siarad Iechyd/Talking Health. Nod y cynllun yw rhoi cyfle i staff a phobl leol gael mynegi eu barn am y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd lleol eu cynllunio, eu datblygu a'u rhoi ar waith. Mae'n agored i bawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r bwrdd iechyd neu sy'n byw yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin neu Ceredigion.

Bydd aelodau'n derbyn cylchlythyrau a newyddion rheolaidd am y gwasanaethau iechyd sydd ar gael, a byddant yn gallu bod yn rhan o drafodaethau parhaol am faterion iechyd mewn sawl ffordd: digwyddiadau, paneli darllenwyr, grwpiau diddordeb, arolygon a thrwy wirfoddoli. Bydd aelodau hefyd yn cael cyfle i wella eu hiechyd eu hunain drwy dderbyn buddiannau a mentrau iechyd.
Dywedodd y Cadeirydd, Chris Martin "Croesawn farn pobl leol ac rydym am iddynt gymryd rhan – nid yn unig er mwyn gwella eu hiechyd eu hunain ond hefyd er mwyn gwella gwasanaethau gofal iechyd yn ystod y ddeng mlynedd nesaf."
Am fwy o wybodaeth ac i lawr lwytho ffurflen gais ewch i wefan www.siaradiechyd.wales.nhs.uk / www.talkinghealth.wales.nhs.uk. Gallwch gysylltu â ni ar 01554 779510 **neu** ysgrifennwch at RHADBOST BWRDD IECHYD HYWEL DDA.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ymarfer corff

Dywedodd 62% ohonoch eich bod yn ymarfer corff yn rheolaidd drwy gerdded am ddwy filltir neu fwy o leiaf unwaith yr wythnos. Fodd bynnag, dywedodd y nifer mwyaf ohonoch (91%) nad oeddech chi'n beicio am bum milltir neu fwy o leiaf unwaith yr wythnos.

Coast to Coast

Roedd 68% yn defnyddio'r papur newydd *Coast to Coast* yn ystod misoedd yr haf. Yr adrannau mwyaf defnyddiol yn eich barn chi yw gwybodaeth gyffredinol ar beth i'w wneud, a manylion penodol am ddigwyddiadau.

Traddodiad diwylliannol

Roedd 81% ohonoch yn teimlo bod gan Sir Benfro draddodiad diwylliannol cryf, a'r 3 elfen bwysicaf i'w cadw yn eich barn chi oedd: 1) Adeiladau hanesyddol, pensaernïaeth draddodiadol a safleoedd archeolegol ayyb 2) Balchder yn Sir Benfro a 3) Gweithgareddau cymunedol.

Coleg Sir Benfro

Pa mor bwysig yw'r Coleg fel gwasanaeth lleol yn eich barn chi?

Dywedodd 91% ohonoch fod y Coleg yn wasanaeth lleol pwysig neu eithaf pwysig, a dywedodd dros hanner ohonoch fod y gwasanaeth a ddarperir gan y coleg yn dda neu'n dda iawn (55%); tra bod 35% ohonoch ddim yn gwybod / heb ddefnyddio'r gwasanaeth.



Ydych chi'n teimlo bod y Coleg yn cynnig cyrsiau sy'n cwrdd ag anghenion pobl leol?

Roedd 52% ohonoch yn teimlo bod y Coleg yn cynnig cyrsiau sy'n cwrdd ag anghenion pobl leol, fodd bynnag, roedd 34% ohonoch yn teimlo y dylai mwy o gyrsiau fod ar gael.

Beth yw'ch barn gyffredinol am safonau addysgol y Coleg?

Roedd 25% ohonoch yn credu fod y Coleg yn cynnig amrediad eang o gyrsiau, roedd 22% yn credu ei fod yn cynnig dewis amgen a realistig i Lefel A, gyda 22% pellach yn dweud nad oeddech chi'n gwybod. Roedd 14% ohonoch yn teimlo ei fod yn cynnig safonau addysgol sy'n uwch nag ysgolion lleol, roedd 12% yn teimlo bod ganddo safonau sy'n gyfartal ag ysgolion lleol, roedd 3% (36 ohonoch) yn teimlo ei fod ar gyfer rhai sy'n rhoi'r gorau i'r ysgol yn bennaf, ac roedd 2% (26

Diweddariad

Prif nod y Coleg yw sicrhau bod anghenion addysg a hyfforddi unigolion, busnesau a chymunedau lleol ledled Sir Benfro yn cael eu diwallu. Defnyddiwyd ymatebion o holiadur 19 i gael mewnwelediad i safbwyntiau pobl leol ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael a helpu i gynllunio datblygiadau yn y Coleg ar gyfer y dyfodol.

Gofynnodd rhai ohonoch am wybodaeth ynghylch **Diplomâu Estynedig**, a soniwyd amdanynt yn yr holiadur. Er mai Lefelau A yw'r llwybr traddodiadol i brifysgol o hyd, mae Diplomâu Estynedig BTEC yn cynyddu mewn poblogrwydd fel dewis amgen ac yn ffordd fwy ymarferol o astudio ar lefel uwch a chael mynediad i gyrsiau prifysgol - yn arbennig ar gyfer graddau arbenigol megis peirianneg a chelf a dylunio. Mae Diploma Estynedig BTEC gyfwerth â thair Lefel A.
Am ragor o wybodaeth am y Coleg, ewch i www.pembrokeshire.ac.uk.